



Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF)

Cylch Gorchwyl

CYMERADWYWYD Gorffennaf 2018

Rheoli Fersiynau'r Ddogfen

Fersiwn	Nodiadau	Perchennog	Dyddiad Cyhoeddi	Cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol	Dyddiad Adolygu	Statws
F1		D Beacroft	Awst 2017			Drafft
F2	Ymgynghori â GGLI a'r Is-grwpiau Adolygu Ymarfer	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru	Hydref 2017	Hydref 2017	Hydref 2018	Cymeradwy
F3	Ymgynghori â phartneriaid Fforwm MAPF Rhanbarthol	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru	Mai 2018	Gorffennaf 2018	Gorffennaf 2020	Cymeradwy

CYLCH GORCHWYL

1. Diben MAPF

Mae MAPF yn rhan o'r rhaglen ddi-dor o ddysgu gweithredol ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru a bydd yn cadw golwg dros achlysuron dysgu o achosion a lledaenu ac archwilio dysgu o archwiliadau, arolygon, adolygiadau ac ymchwil.

2. Amlinelliad o Swyddogaethau

- Darparu sylfaen i ddysgu trefnyddol.
- Gwella ansawdd gwaith gydag oedolion, teuluoedd / plant a holl ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Atgyfnerthu gallu gwasanaethau i gadw plant ac oedolion mewn perygl yn ddiogel.
- Sicrhau dysgu a datblygu parhaus lleol ymhlith proffesiynau.

3. Cyd-destun Deddfwriaethol a Chanllawiau

- Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.
- Amddiffyn Plant yng Nghymru (Canllawiau i Drefniadau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol) a ddaeth i rym ar 1^{af} Ionawr 2013.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Codau Ymarfer Cydweithio i Amddiffyn Pobl Cyfrolau 2 a 4.

4. Dull Gweithredu ar gyfer achlysuron dysgu

- Bydd pob awdurdod yn cynnal o leiaf 2 achlysur dysgu bob blwyddyn a rhannu'r dysgu gyda MAPF.
- Bydd yr achlysuron yn cael eu cynnal mewn amgylchedd sy'n rhoi cefnogaeth a her broffesiynol ddiogel.
- Rhaid i'r broses fod ynghylch dysgu agored a didwyll ac nid ynghylch rhannu bai.
- Bydd casgliad eglur o egwyddorion gweithio'n cael ei gytuno ar ddechrau pob achlysur.
- Bydd staff yn cael cyfarwyddyd ar beth i'w ddisgwyl, pa baratoi sydd ei angen a sut fyddant yn gwneud eu cyfraniad.
- Bydd yr achlysuron yn cael eu hwyluso trwy drafod, ymgynghori ac ystyried.
- Naws "Arwyddion Diogelwch" fydd sail yr achlysuron dysgu
- Bydd cydgyfrinachedd yn cael ei gynnal.
- Bydd y dysgu o ymarfer yn cael ei gofnodi yn ystod yr achlysur, a'i hysbysu'n ffurfiol i'r GGLI ac i MAPF.
- Bydd yr asiantaethau priodol yn rheoli anghenion hyfforddi staff unigol, camymarfer staff neu esgeulustod.
- Bydd unrhyw newidiadau mewn polisi, protocolau neu gyflenwi gwasanaethau o ganlyniad i'r achlysur dysgu'n digwydd mor fuan ag y bo modd.

5. Atebolrwydd a llinell atebolrwydd

Bydd MAPF yn atebol i CYSUR a CWMPAS: Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Bydd llinellau cyfathrebu clir hefyd gyda phob Grŵp Gweithredol Lleol (GGLI).

6. Aelodaeth MAPF

- Rheolwyr perthnasol yn cynrychioli diogelu Oedolion a Phlant (2 o ardal pob awdurdod)
- Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Rhanbarthol M&WW
- Rheolwr perthnasol Addysg / Addysg Bellach
- Rheolwr perthnasol (HDUHB)
- Rheolwr perthnasol (Heddlu Dyfed Powys)
- Rheolwr perthnasol (Profiannaeth)
- Cyfetholedig fel bo angen e.e. Llywodraethu Gwybodaeth a Rheolwyr Cwynion

7. Gweinyddu

- Bydd yr Uned Fusnes Ranbarthol yn rhoi cymorth gweinyddol i MAPF.
- Bydd papurau cyfarwyddo, a chrynodebau achosion pan fo hynny'n briodol, yn cael eu cylchredeg cyn pob achlysur.
- Bydd cymorth gweinyddol i'r achlysuron dysgu'n cael ei ddarparu o fewn tiriogaeth yr awdurdod lleol.

8. Amllder cyfarfodydd

Bydd y Fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn

9. Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Bydd Bwrdd Canolbarth a Gorllewin Cymru'n adolygu'r Cylch Gorchwyl ymhen 12 mis, a phob blwyddyn wedi hynny.

10. CIST OFFER

Caiff y dogfennau a thempledi canlynol eu hatodi i gynorthwyo cynnal achlysuron dysgu o fewn y rhanbarth:

- A. Egwyddorion Gweithio
- B. Siart Llif MAPF
- C. Templed Cyfarfod Cynllunio Achlysur Dysgu
- D. Templed Llythyr Gwahodd i Achlysur Dysgu
- E. Templed Agenda Achlysur Dysgu
- F. Templed Ffurflen Gloriannu
- G. Templed Diolch
- H. Templed Adroddiad
- I. Templed Cynllun Gweithredu




BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

EGWYDDORION GWEITHIO MAPF

1. Mae gan bob aelod o'r grŵp gyfraniad dilys i'w wneud a fydd yn cael ei werthfawrogi a'i glywed.
2. Pan fo gwahaniaethau rhwng safbwyntiau, bydd y rhain yn cael eu clywed yn ystyriol neu eu hamau mewn ffordd sy'n adeiladol a galluogol i broses y grŵp a'i amcanion.
3. Rydym i gyd yn ymdrechu i herio a rhoi sylw i arferion gormesol yn ein gwaith a bydd y grŵp cyfan yn rhannu cyfrifoldeb dros roi sylw i ymddygiad neu iaith ormesol mewn ffordd sy'n deimladol ac adeiladol.
4. Bydd cyfranogwyr yn ategu egwyddor cydgyfrinachedd ynghylch teimladau neu faterion personol sy'n cael eu rhannu yn ystod ein gwaith gyda'n gilydd.
5. Bydd cwestiynau diniwed yn cael ei ystyried fel y safon.

A hefyd... beth arall sydd angen i *chi* ei gytuno er mwyn cyfranogi\$\$\$ cymryd rhan yn llawn ac effeithiol?

LOG wedi derbyn ac ystyried cais i gynnal achlysur dysgu MAPF?



LOG / Arweinydd Ardal Leol yn penodi Cadeirydd yr Achlysur Dysgu a Tîm Cynllunio

Cadeirydd yr Achlysur Dysgu / Tîm Cynllunio'n cyfarfod i drefnu'r Achlysur Dysgu (*gwelwch sampl yr agenda yn y gist offer*) – byddant yn ystyried y canlynol:

- Gwbodaeth i'w chrynhoi a'i thrafod yn yr Achlysur Dysgu
- Llinell amser
- Swyddogaethau arweiniol yn y Tîm Cynllunio a'r Achlysur Dysgu
- Cyswllt a chyfraniad y teulu
- Mynychwyr

(DS fe all fod 1-4 o gyfarfodydd cynllunio, yn dibynnu ar y cymhlethdod)

Cynnal yr Achlysur Dysgu, gan lunio adroddiad ar y pryd

Cynhyrchu Adroddiad o'r Achlysur Dysgu a datblygu drafft gynllun gweithredu a'i rannu gyda'r Tîm Cynllunio i'w gadarnhau drwy e-bost neu gyfarfod

Rhannu'r adroddiad a'r cynllun gweithredu gyda LOG i'w drafod a'i gadarnhau

LOG yn penderfynu ac yn cynllunio dull o ledaenu'r dysgu ymarfer

Ymateb i ffynhonnell y gyfeireb a'r teulu, os yw hynny'n briodol

Asiantaethau unigol yn cymryd unrhyw gamau gofynnol

LOG yn cyflwyno adroddiad i Fforwm MAPF Rhanbarthol

Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF) Cyfarfod Cynllunio Achlysur Dysgu:**CYF. MAPF:****Dyddiad ac amser:****Lleoliad:****1. Aelodaeth y Grŵp Cynllunio:**

- Dylai'r aelodaeth gynrychioli'r asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos a'r teulu / gofalwyr.
- Bydd cadeirydd gyda phrofiad addas yn cael ei gytuno.
- Rhaid i'r aelodau fod o haen uchel briodol a gweithredu fel unig gyswllt eu sefydliad / asiantaeth / gwasanaeth / adran briodol.
- Dylid cynnal cysondeb aelodaeth Cyfarfodydd Cynllunio.

2. Cefndir a'r sefyllfa bresennol:

- Rhoi cefndir cryno a sefyllfa bresennol yr achos. Mae hyn yn cynnwys y pwyntiau canlynol:
 - Tarddiad a sail resymegol y gyfeireb MAPF.
 - Cefndir y teulu yn yr achos.
 - Cyfnod yr achlysuron i'w cytuno ar gyfer y broses, a sail resymegol.
 - Cwestiynau i'w defnyddio / addasu ar gyfer yr Achlysur Dysgu:
 - I. Beth lwyddodd, oedd yna feysydd o arferion da?
 - II. Beth deimlwch chi na lwyddodd?
 - III. Beth wnawn ni'n wahanol nawr, pa newidiadau wnaed?
 - IV. A oes angen i ni wneud unrhyw beth arall?

3. Gwaith Allweddol a Hwyluswyr:

- Cyn yr Achlysur Dysgu:
 - Gweinyddu, gan gynnwys dyddiad, amser, hyd a lleoliad priodol.
 - Aelodau'r grŵp cynllunio i gyfarwyddo mynychwyr; darllen o flaen llaw a gwahoddiadau.
 - Cytuno ar awdur annibynnol adroddiad MAPF.
- Hwyluso'r Achlysur Dysgu:
 - Cyflwyniadau a disgrifio'r sefyllfa, gan gynnwys sail resymegol i gynnal y MAPF a chefnidir yr achos.
 - Esbonio'r llinell amser.
 - Cyflwyno sylwadau'r teulu / rhieni / gofalwyr.
 - Hwyluso'r pedwar cwestiwn allweddol.
 - Ysgrifennwr yr adroddiad i fynychu'r Achlysur Dysgu a dechrau llunio'r adroddiad a'r camau cysylltiedig yn ystod y trafodaethau.

4. Cyswllt a chyfranogiad y teulu:

- Cytuno ar aelod o'r grŵp cynllunio fel yr unigolyn mwyaf priodol i fod yn unig gyswllt â'r teulu / gofalwyr.

- Cytuno ar y dull mwyaf addas a theimladol o gael sylwadau'r teulu / gofalwyr, egluro proses a nodau MAPF, a chyfuno'r sylwadau â'r Achlysur Dysgu a'r adroddiad.
- Dylai cyfarfodydd gyda'r teulu / gofalwyr ddigwydd cyn, ac ar ôl, yr Achlysur Dysgu. Mae hyn yn creu cyfleoedd i gael y sylwadau, a chyfleu i'r teulu unrhyw argymhellion ar wella arferion / systemau.

5. Presenoldeb ymarferwyr yn yr Achlysur Dysgu:

- Rhaid i'r Achlysur Dysgu fod yn ffafriol i gynnal trafodaethau agored, didwyll a llawn her ynghylch ymarfer, systemau ac unrhyw newidiadau a/neu welliannau y bydd angen eu gwneud o ganlyniad i'r MAPF.
- Dywed canllawiau Adolygiad Ymarfer Oedolion / Plant, y cyfeirir atynt yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y dylai ymarferwyr sydd wedi gweithio gyda'r oedolion / plant a theuluoedd fod yn bresennol, oherwydd eu bod yn y lle gorau i ystyried sut y digwyddodd a nodi arferion i'w dysgu at y dyfodol.
- Felly, dylai aelodau'r grŵp cynllunio sicrhau bod y staff mwyaf priodol yn cael eu cyfarwyddo'n ddigonol, yn mynychu ac yn cyfranogi yn yr Achlysur Dysgu.

6. Camau a gytunwyd yn y cyfarfod Cynllunio hwn:

- Rhestru'r camau a gwaith a gytunwyd gyda therfynau amser a neilltuwyd i bob aelod o'r Grŵp Cynllunio.
- Bydd y rhain yn cynnwys y canlynol:
 - Trefnu cyfarfod cynllunio ychwanegol / terfynol i adolygu / derfynu manylion yr Achlysur Dysgu.
 - Archebu'r man cyfarfod ar gyfer yr Achlysur Dysgu; llunio llythyr gwahodd, cytuno ar unrhyw ddarllen o flaen llaw ac agenda'r Achlysur Dysgu ar gyfer y cyfarfod cynllunio nesaf.
 - Cysylltu â'r teulu / gofalwr i esbonio MAPF a chael barn.
 - Cadw cyswllt ag ymarferwyr dynodedig a hysbysu dyddiad yr Achlysur Dysgu.
 - Llunio'r llinell amser ar gyfer y cyfarfod cynllunio nesaf.
 - Llunio ffurf yr adroddiad ar gyfer cyfarfod cynllunio nesaf.

Annwyl Gydwethiwr

Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol [Cylch Lleol]

Amser:

Dyddiad:

Lleoliad:

Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF) yw sylfaen cynhyrchu dysgu trefnyddol, gwella ansawdd gwaith gyda theuluoedd ac atgyfnerthu gallu gwasanaethau i gadw oedolion a phlant yn ddiogel.

Mae dau brif ddiben i'r MAPF – mae modd eu defnyddio ar gyfer achlysuron dysgu o achosion a rhoi cyfleoedd pwysig eraill i ymarferwyr a rheolwyr amlasiantaethol lleol ddysgu.

Un o nodweddion MAPF yw eu bod yn cynnwys asiantaethau partner ac ymarferwyr mewn ymdrech gyfunol i fyfrio a dysgu o'r hyn ddigwyddodd er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol.

Bydd MAPF yn mabwysiadu agwedd adeiladol a chilyddol seiliedig ar ddysgu fel bod y canolbwynt ar arfer proffesiynol amlasiantaethol a gweithio rhwng asiantaethau.

Cawsoch amlinell o fanylion y MAPF hwn eisoes. Y llythyr hwn yw eich gwahoddiad ffurfiol.

Cewch eich gwahodd oherwydd i chi weithio gyda'r achos ac, o ganlyniad, bod gennych rywbeth i'w gyfrannu at y dysgu at ei gilydd. Y disgwyl yw y byddwch yn mynychu'r achlysur pwysig hwn.

Bydd y MAPF yn cael ei hwyluso'n annibynnol gan.....

Bydd cymorth busnes a gweinyddol yn cael ei ddarparu gan.....

Paratoi ar gyfer yr Achlysur Dysgu

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ystyried rhywfaint ar eich rhan yn yr achos penodol hwn, gan feddwl yn benodol am:

- *Asesiadau*
- *Gwneud penderfyniadau a chymau gweithredu (dyddiadau ac amserau)*
- *Rhyngweithiad gyda gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill*
- *Meysydd o arferion da*
- *Meysydd lle gallai fod rhai gwelliannau*

Bydd trefn y prynhawn yn cynnwys y canlynol:

- *Croeso a chyflwyniadau*
- *Yr amgylchedd ar gyfer dysgu*
- *Cefndir a chyd-destun*

- *Llinell amser y digwyddiadau allweddol*
- *Cwestiynau a thrafodaethau allweddol*
- *Pwyntiau dysgu*
- *Casgliad a chymau nesaf*

Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at weithio gyda chi yn yr achlysur pwysig hwn, a gobeithiwn y cewch yr agwedd hon yn adeiladol a defnyddiol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes arnoch angen rhagor o eglurhad, cofiwch gysylltu â ni ar y rhif uchod.

Cofion cynnes,

Agenda Achlysur Dysgu MAPF			
Cyf. MAPF:		DYDDIAD:	LLEOLIAD:
Trefn y Sesiwn			
EITEM	PWNC	ARWEINYDD	AMSERIAD
1	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <ul style="list-style-type: none"> Pam yr ydym yn cynnal yr achlysur hwn – sut y cyrhaeddwyd yma Naws yr achlysur dysgu Ysgrif bortread o xxx Cyfranogiad y teulu 		10.00 i 10.20
2	<p>Llinell amser y digwyddiadau allweddol</p> <ul style="list-style-type: none"> Beth ddigwyddodd pryd? A fethwyd unrhyw beth? 		10.20 i 11.00
3	<p>Pedwar cwestiwn</p> <ul style="list-style-type: none"> Beth lwyddodd a beth oedd y meysydd o arferion da? Beth deimlwn na lwyddodd? Beth wnaem ni'n wahanol a beth ddysgwyd gennym? Beth yw'r camau sydd angen i ni eu cymryd i sicrhau bod y pethau a ddysgwyd yn newid yr hyn a wnawn yn y dyfodol? 		11.00 i 11.55
4	<p>Beth sy'n digwydd nesaf?</p> <ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu adroddiadau Rhannu'r adroddiad gyda'r GGLI Rhannu'r adroddiad gyda'r teulu 		11.55 i 12.00

FFURFLEN GLORIANNU ACHLYSUR DYSGU MAPF

CYF. MAPF:

Dyddiad yr Achlysur Dysgu:

Ydych chi'n teimlo y paratowyd chi'n ddigonol ar gyfer yr achlysur dysgu MAPF?

A wnaeth yr achlysur dysgu MAPF hwn gyflawni'r amcanion?

Sut ydych chi'n sgorio'r achlysur dysgu MAPF hwn?

Beth oedd fwyaf defnyddiol i chi?

Beth oedd leiaf defnyddiol i chi?

Oes yna unrhyw ddysgu o'r achlysur dysgu MAPF hwn y bwriadwch fynd ag ef yn ôl i'ch gwaith?

Oes gennych chi unrhyw sylwadau perthnasol eraill neu awgrymiadau ar gyfer gwella?

Diolch am eich cyfranogiad a'ch cymorth.

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyngor Sir [*Rhowch ei enw*]

Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF)

Achlysur Dysgu

[*Cyfeirnod*]

[*Dyddiad*]



Diolch i chi am eich presenoldeb a'ch cyfraniad heddiw.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

- Llenwch y ddalen gloriannu a'i gadael ar y ddesg.
- Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae ein manylion cysylltu wrth droed y ddalen.
- Byddwn yn llunio adroddiad yn nodi'r pwyntiau dysgu.
- Byddwn yn cadw cyswllt â'r teulu ac yn ymateb iddynt.
- Byddwn yn cyflwyno'r adroddiad i'r Grŵp Gweithredol Lleol (GGLI).
- Bydd y GGLI yn dweud sut mae'n dymuno lledaenu'r dysgu.
- Bydd cyfeiriad byr at y MAPF hwn yn Adroddiad Blynyddol Sicrhau Ansawdd ac Archwiliad – ni fydd yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol.

Manylion Cysylltu

[*Rhowch Staff Perthnasol y Cylch Lleol*]

Adroddiad:	MAPF (Rhowch enw'r Awdurdod Lleol)
Cyfeirnod MAPF:	MAPF CYSUR neu CWMPAS 1/2018 (rhowch enw'r Awdurdod Lleol)
Dyddiad yr Achlysur Dysgu:	Rhowch y dyddiad
Dyddiad cyflwyno i'r Grŵp Gweithredol Lleol (GGLI):	Rhowch y dyddiad

1. Cyflwyniad

- Cyfeiriwch at y ddeddfwriaeth / canllawiau / protocol y mae'r MAPF yn digwydd dano.
- Cyfeiriwch at ble, a sut, y tarddodd y gyfeireb / argymhelliad, e.e., achos arferion da, is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant / Oedolion Rhanbarthol, achos a archwiliwyd, ymchwilio cwyn, Ombwdsmon.
- Crynodeb o'r hyn gaiff ei ystyried a/neu'r helyntion cysylltiedig â'r achos, digwyddiad neu fater i'w archwilio.
- Rhestru'r egwyddorion allweddol, h.y., gallai gynnwys eglurder, rhoi cyfleoedd i'r teulu gyfrannu – yna caiff y sylwadau hyn eu plethu i'r trafodaethau yn yr achlysur dysgu.
- Crynhoi sut mae / oedd gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau'n gwybod am y teulu / unigolyn.

2. Yr Achlysur Dysgu

- Cynhaliwyd yr achlysur dysgu ar **[rhowch y dyddiad]** ac roedd / nid oedd cynrychiolaeth dda o'r asiantaethau a fu'n gweithio gyda'r teulu. Roedd **[rhowch nifer]** o weithwyr proffesiynol yn bresennol o **[rhestrwch yr asiantaethau / sefydliadau]**.
- Hwyluswyd yr achlysur dysgu'n annibynnol gan staff o **[rhowch fanylion]**.
- Ystyriodd yr achlysur dysgu linell amser cysylltiadau a digwyddiadau yn ystod y cyfnod **[rhowch ddyddiadau'r llinell amser]**. Disgrifiwch sail resymegol y llinell amser.
- Gofynnwyd i weithwyr proffesiynol ystyried y cwestiynau canlynol:
 - Beth lwyddodd ac a oedd yna feysydd o arferion da?
 - Beth deimlwch chi na lwyddodd?
 - Beth wnaem ni'n wahanol a beth ddysgwyd gennym?
 - Beth yw'r camau sydd angen i ni eu cymryd i sicrhau bod y pethau a ddysgwyd gennym yn newid yr hyn a wnawn yn y dyfodol?

3. Arferion a Dysgu Trefnyddol

3.1 Beth lwyddodd ac a oedd yna feysydd o arferion da?

3.2 Beth deimlwch chi na lwyddodd?

3.3 Beth wnaem ni'n wahanol a beth ddysgwyd gennym?

3.4 Beth yw'r camau sydd angen i ni eu cymryd i sicrhau bod y pethau a ddysgwyd gennym yn newid yr hyn a wnawn yn y dyfodol? Dyma'r argymhellion.

4. Camau gofynnol

- Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i **[rhowch GGLI yr Awdurdod Lleol]** i'w gadarnhau a phenderfynu pa gamau y dylid eu cymryd i ledaenu'r hyn a ddysgwyd yn yr achlysur hwn.
- Bydd **[rhowch GGLI yr Awdurdod Lleol]** yn goruchwyllo'r cynllun gweithredu cysylltiedig i gyflawni'r argymhellion. Mae gan holl asiantaethau sy'n ymwneud â'r MAPF gyfrifoldeb i weithredu eu hargymhellion priodol.
- Bydd Grŵp Strategol MAPF Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn derbyn y dysgu o adroddiadau MAPF bob chwe mis.

CYNLLUN GWEITHREDU I GYFLAWNI ARGYMHELLION YR ADRODDIAD

CYF. MAPF: _____

RHIF	ARGYMHELLIAD	TYSTIOLAETH O GAMAU A GYMRWYD	CAMAU GOFYNNOL	ARWEINYDD	AMSERLEN	RAG
1.						
2.						
3.						
4.						
5.						